Catrin Hallett

Pam ddylai aelodau CGGC bleidleisio drosof i fod yn ymddiriedolwr?

Rwy'n frwd am y sector gwirfoddol a sicrhau bod ganddo ddyfodol disglair yng Nghymru.

Fel cyfathrebwr dwyieithog medrus sy'n gweithio yn y trydydd sector, credaf y gallaf gynnig mewnwelediad gwerthfawr i gefnogi cenhadaeth CGGC i "wneud mwy o wahaniaeth gyda'n gilydd". Rwy'n arbennig o awyddus i gyfrannu fy safbwynt fel gweithiwr ifanc proffesiynol i helpu i lywio a gyrru ei dwf.

Mae gweithio ym mudiad Gofal Canser Tenovus wedi rhoi mwy fyth o werthfawrogiad i mi o'r sector gwirfoddol. Rwyf wedi gweld ymroddiad ein gwirfoddolwyr ac effaith gweithredu cyfunol. Fel Pennaeth Marchnata a Chyfathrebiadau, rwy'n arwain ymgyrchoedd a yrrir gan fewnwelediad sy'n codi ymwybyddiaeth, yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau ac yn ysbrydoli pobl i weithredu.

Rwy'n ymrwymedig i amrywiaeth a chynhwysiant. Fel cadeirydd grŵp Cymraeg yr elusen ac aelod o'i grŵp cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, rwy'n falch o'r cynnydd arwyddocaol a chynaliadwy rydym wedi'i wneud o ran creu mudiad mwy hygyrch. Yn fy rôl arweinyddiaeth, rwy'n rheoli tîm o chwech ac yn mwynhau datblygu amgylchedd cydweithredol a grymusol.

O ran fy natblygiad personol, byddem yn dwli ar gael y cyfle i ddod â'm sgiliau a'm mhrofiad i fy rôl gyntaf fel ymddiriedolwr mudiad â chenhadaeth a gwerthoedd mor debyg i fy rhai i.